# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
# DYDD MAWRTH TACHWEDD 16 2021

**Yn Bresennol:**

**Cynghorwyr:**

Anne Lloyd Jones (Cadeirydd), Annwen Daniels, Judith Humphreys, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Robert Dewi Owen, Dewi Wyn Roberts, Mair Rowlands.

**Swyddogion:** Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth) a Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd Y Cyngor)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Anwen Hughes.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i’w nodi.

## 3. MATERION BRYS

Dim i’w nodi.

## 4. COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y pwyllgor blaenorol ar y 29 Mehefin, 2021 yn gywir.

## 5. FFRAMWAITH CYFARFODYDD

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo’r Fframwaith Pwyllgorau i’w gyflwyno gerbron y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr.

Cyflwywnyd yr adroddaid gan Bennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a nododd bod sawl drafodaeth wedi bod ar y fframwaith cyfarfodydd ar gyfer y dyfodol. Eglurodd bod y Cyngor Llawn wedi cytuno ar drefniadau interim ac bod bwriad i gyflwyno’r adroddiad hwn i'r Cyngor Llawn ar y 2ail o Ragfyr, 2021.

Trosglwyddwyd i'r Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith ac nododd bod yr adroddiad yn sail ar gyfer y dyfodol i sicrhau fframwaith gynaliadwy ar gyfer y Pwyllgorau. Atgoffodd y Pwyllgor o'r cyfnod pan sefydlwyd pa bwyllgorau i we ddarlledu sef ar sail y cyfafodydd sydd o fwy o ddiordeb I'r cyhoedd, ac felly drwy'r un egwyddor dyma'r ddull a ddfenyddiwyd ar gyfer dewis y Pwyllgorau hybrid a rhithiol yn unig.

Nododd mai'r Cyngor Llawn, Cabinet, Pwyllgor Cynllunio a Chyfarfodydd Craffu fydd yn cael eu cynnal yn hybrid. Eglurodd y byddai'r holl Pwyllgorau a chyfarfodydd eraill yn rhai rhithiol yn unig.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyfreithiol bod dau ddewis yn unig yn statudol sef y dewis i'w cynnal yn rhithiol llwyr, yn hybrid llwyr neu gyfuniad o'r ddau. Ychwanegodd mai mater o benderfynnu drefn gorau er mwyn sicrhau mynediad i'r cyhoedd ac hyrwyddo democratiaeth.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau isod:

- Cytunwyd aelodau a'r adroddiad a nodwyd eu bod yn deall y rhesymeg a'r egwyddorion. Fodd bynnag, o brofiad nodwyd bod y drefn hybrid yn gallu fod yn un rhwystredig er engrhaifft gall fod yn anodd i gadeirio.
- Holwyd a fydd adnoddau ar gael i gynghorwyr fynychu'n rhithiol o swyddfeydd y Cyngor os ydynt yno yn dilyn cyfrafod arall.
- Cytunwyd efallai bod safon y caledwedd yn uchel, fodd bynnag nodwyd nad oes safon uchel o gyswllt we ar draws Gwynedd gyfan. Ategodd aelod y gall problemau technegol effeithio ar amseru cyfarfodydd.
- Ychwanegwyd sylw bod y trefniadau yn caniatáu i gynghorwyr o ardaloedd sy'n bell o Gaernarfon, i dreulio mwy o amser ar faterion yn eu ward a llai o amser yn teithio i Bwyllgorau.
- Mynegwyd pryder o ran trefniant cyfarfodydd hybrid o safbwynt cadeirio a tegwch i aelodau.
- Cytunwyd a'r arfer dda o gychwyn cyfarfodydd yn gynt fel bod pob aelod yn medru sicrhau cyswllt technegol.
- Awgrymwyd y dylid cychwyn y cyfarfodydd yn gynt fel bod modd datrys problemau technegol
- Derbyniwyd bod dulliau hybrid yn caniatáu cynrychiolaeth ehangach ymysg cynghorwyr.
- Holwyd am y drefn ynghylch Pwyllgorau sy'n gaedig e.e. Trwyddedu.

Ymatebodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol fel a ganlyn:

- Sicrhawyd bydd darpariaeth ar gyfer aelodau gael mynediad at swyddfa i fod yn ran o gyfarfod rhithiol
- Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith bod y gwasanaeth yn edrych ar y ddarpariaeth ar gyfer aelodau newydd o 2022.
- Ategodd bod y profiad Hybrid yn dra gwahanol i'r hen arfer o fideo gynadledda.
- Nodwyd bod profion peilota cychwynnol wedi bod yn rhai llwyddiannus gyda chadeirydd yn rhithiol ac yn y siambr.
- Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch Pwyllgorau caeëdig, nodwyd nad yw Pwyllgor Trwyddedu wedi ei hadnabod fel un a fydd yn hybrid,
- Ychwanegodd y Pennaeth Cyfreithiol, yn statudol dau fath o gyfarfod yn unig sy'n bodoli erbyn hyn sef un ai hybrid neu rhithiol. Ategodd bod gan bob aelod hawl i fynychu o bell.
- Ategodd nad yw'r hawl i fynychu'n bell yn gwahaniaethu ar sail rôl, ac felly gall Cadeirydd fynychu o bell hefyd.
- Diolchwyd i'r Pwyllgor a eu cefnogaeth.

## 6. ETHOLIADAU MAI 2022

**PENDERFYNIAD**

a) Derbyn yr adroddiad.
b) Sefydlu Is-grŵp Etholiadau gyda 5 aelod o'r Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd Tîm Democratiaeth ac Iaith yn diweddaru'r aelodau ar waith y tîm Democratiaeth ar gyfer paratoi ar gyfer yr etholiadau 2022.
Rhoddwyd drosolwg o'r wythnos democratiaeth a fuodd i godi ymwybyddiaeth ar wefannau cymdeithasol, ac ategodd bod y Cyngor yn parhau i rannu negeseuon dros y wythnosau a misoedd nesaf.
Ategodd bod sesiwn cwestiwn ac ateb wedi digwydd a bydd un arall ym mis Ionawr gyda chymorth y tîm etholiadau.

Gofynnwyd a oes modd creu is-grŵp etholiad i fod yn rhoi barn ar faterion megis y mewnrwyd, llyfryn gwybodaeth i gynghorwyr, a'r rhaglen hyfforddiant.

Tynnwyd sylw'r aelodau at y mewnrwyd aelodau gan bod dipyn o ddiweddariadau i'w gweld yno.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau isod:

- Codwyd y sylw bod angen manylion wrth law o ba swyddogion i gysylltu ag ar gyfer materion amrywiol.
- Cytunwyd yr aelodau canlynol i fod yn ran o'r is-grŵp aelodau: Y Cynghorwyr Dewi Roberts, Gwynfor Owen, Anne Lloyd Jones, Mair Rowlands, Dewi Owen.

## 7. DATGANIAD AMRYWIAETH CYNGOR GWYNEDD

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r Datganiad Amrywiaeth a'i argymell i gyfarfod y Cyngor Llawn ar yr 2il o Ragfyr 2021.

Cyflwynwyd yr adroddiad er gwybodaeth gan Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith, atgoffwyd bod y pwyllgor eisoes wedi mabwysiadu'r datganiad yn y Cyngor llawn.
Cyflwynwyd rhaglen waith i gyflawni'r datganiad.

Ni chafwyd sylwadau pellach gan aelodau.

## 8. ADRODDIAD DDRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith er mwyn cynorthwyo cynllunio ymateb i'r ymgynghoriad drafft. Nodwyd bod prif benderfyniadau wedi eu hamlinellu o fewn yr adroddiad.

Ategodd bod penderfyniad wedi ei wneud eleni i argymell dod a lefel cyflog Aelodau Etholedig yn fwy cytbwys i'r lefel y dylen nhw fod. O ganlyniad, nododd felly bod y cyflog arfaethdeig yn cynyddu i £16,800 o 2022 ymlaen ar gyfer Aelodau etholedig.

Rhoddwyd sylwadau pellach gan yr Arweinydd y Cyngor yn amlinelly profiadau Aelodau dros y cyfnod Covid-19 sydd wedi dangos bod gwaith cynghorau lleol yn greiddiol bwysig i'r cymunedau.
Ategodd y dylid ystyried Llywodraeth Leol yn gyfartal o ran rôl i'r gymdeithas ag ydi unrhyw haen Llywodraeth boed hynny'n Lywodraeth ganolog neu lleol.
Mewn perthynas a'r codiad cyflog i aelodau, nododd bod y tâl yno i ganiatau i bobl sydd heb incwm arall i sefyll fel Cynghorydd.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau isod:

- Cytunwyd efo sylwadau'r Arweinydd, cyfeiriwyd at bwynt yn yr adroddiad yn ymwneud a chynghorau Cymuned sef nad oedd yn deg i neb orfod bleidleisio ynglŷn a chyflog eu hunain.
- Codwyd y pwynt bod Cadeiryddion yn gweithio'n galed iawn a bod ganddynt waith ychwanegol, fodd bynnag efallai nad yw hyn yn wybodaeth cyhoeddus ac y dylid tynnu sylw'r cyhoedd at y gwaith hyn.
- Datganwyd pryder y bydd pobl yn meddwl mai codi cyflog eu hunain mae cynghorwyr er mai panel annibynnol sy'n penderfynu.
- Nodwyd er bod nifer o gynghorwyr wedi ymddeol ac ddim yn ddibynnol ar yr arian, mae cynnig cyflog cyfartal yn sicrhau bod cyfle i fwy sefyll mewn etholiad.
- Mewn perthynas a'r drafodaeth ar amrywiaeth mewn democratiaeth, nodwyd ei fod yn anodd wneud swydd Cynghorydd yn iawn os yw unigolyn yn gweithio hefyd. Ategwyd bod pobl ifanc yn methu fforddio bod yn gynghorydd llawn amser yn unig heb swydd ar yr ochr.
- Tynnwyd sylw y Pwyllgor at y dyraniad costau gofal gan mai ychydig sy'n hawlio er ei fod yn anhysbys.
- Holwyd beth yw'r drefn os yw Cynghorydd yn dymuno gwrthod y codiad cyflog.

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith bod angen i Aelod unigol ysgrifennu at Bennaeth Gwasanaethau Democratiaeth i beidio derbyn y codiad cyflog os dyna yw'r dymuniad.

## 9. HOLIADUR BODLONRWYDD AELODAU

**PENDERFYNIAD:**

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd Tîm Democratiaeth ac Iaith a rhannwyd ymatebion yn dilyn y holiadur.

Nododd bod y tîm yn awyddus i wella'r gwasanaeth a ddarperir ac felly wedi holi Aelodau am eu barn.
Rhannwyd y data a gasglwyd a'r sylwadau a gafwyd.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau isod:

- Nodwyd aelod os nad oes ymateb gan Gynghorydd y bod hynny'n dangos bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd.
- Ategodd aelod ei fod yn falch bod y swyddogion wedi cysylltu i drafod y sylwadau er mwyn eu datrys yn sydyn.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 15:40.

**CADEIRYDD**